


Y Mesur Cydraddoldeb
Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru



Y Mesur Cydraddoldeb
Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus
yng Nghymru

Gorffennaf 2009

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

Cyflwyniad

Pan ddaw'r Mesur Cydraddoldeb yn ddeddf, bydd yn cyflwyno dyletswydd gyffredinol newydd i'r sector cyhoeddus a fydd yn sicrhau cysondeb ym mhob maes cydraddoldeb. Bydd yn mynd ymhellach na dyletswydd i hyrwyddo camau i ddileu gwahaniaethu. Bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da yn gyson â'n hagenda cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Bu cyflawni ein hymrwymiad i roi ystyriaeth briodol i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer holl bobl Cymru fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru yn sylfaen gadarn i'r gwaith hwn, ac mae'n parhau i wneud hynny.

Arweiniodd hyn at ddatblygu dull cydraddoldeb a hawliau dynol arbennig yng Nghymru. Cynlluniwyd polisiau, strategaethau a rhaglenni yng Nghymru i ddiwallu anghenion grwpiau penodol yng Nghymru. Ceir nifer o enghreifftiau o'r dull arbennig hwn o ddatblygu polisi:

Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gynnig archwiliadau iechyd llygaid gan optometryddion i bobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n wynebu risg uwch o glefyd y llygaid; darparu nofio am ddim ar gyfer pobl ifanc a phobl hŷn; teithio ar y bus am ddim i bobl sy'n 60 oed a throsodd a pharhau i ddatblygu ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i wella cyfleoedd bywyd pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.

Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gorfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) fel sail ar gyfer yr holl waith llunio polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc - gan sicrhau bod ein hagenda ar gyfer plant yn agenda hawliau yn hytrach nag yn agenda les. Mae sicrhau cynhwysiant a chyfranogiad pobl ifanc, ac yn wir holl bobl Cymru yn rhan annatod o'n dull o lunio polisiau.

Er nad yw'r gyfraith ym maes gwahaniaethu ynddi'i hun yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am nifer o'r ysgogiadau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Rydym yn cydnabod fod hyrwyddo cydraddoldeb yn allweddol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau posibl ar gyfer pobl yng Nghymru, ac y gall hyrwyddo cydraddoldeb ein helpu i gyflawni ein nodau polisi ehangach megis dileu tlodi plant.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod anghydraddoldebau rhywedd yn parhau ym maes cyflogaeth, a bod hyn yn cyfrannu at dlodi plant a theuluoedd. Rydym yn bwriadu datblygu ar sail y gwaith a wnaed gennym eisoes drwy ein hymgyrch Cyflog Cyfartal, a gallai datblygu dyletswydd benodol a fydd yn cyfrannu at leihau'r bwlch cyflog ymhellach fod yn un o'r dulliau o wneud hyn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod unrhyw gyfrifoldebau cydraddoldeb penodol newydd a osodir ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn ychwanegu gwerth at yr amcanion polisi rydym am eu cyflawni. Dyna pam y cynhelir yr ymarfer gwrando hwn. Mae angen eich cyfraniad chi arnom i sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau penodol a ddatblygir yng Nghymru yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau priodol, yn arwain at well canlyniadau i

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

bobl, ac yn arwain at well profiadau i ddinasyddion wrth iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

Datblygu dyletswyddau cydraddoldeb penodol

Credwn y dylai unrhyw ddyletswyddau penodol a grëir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn hyblyg ac yn gymesur. Dylent ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddinasyddion, yn hytrach nag annog awdurdodau cyhoeddus i ganolbwyntio ar brosesau. Dylai dyletswyddau fod yn:

- **Hyblyg** - fel bod awdurdodau cyhoeddus ond yn gweithredu pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gynhyrchiol;
- **Cymesur** - yn dibynnu ar swyddogaeth a maint yr awdurdod cyhoeddus. Er enghraifft, bydd y disgwyliadau a osodir ar ysgol gynradd fach yn wahanol i'r rheini a osodir ar gyngor lleol mawr, a bydd y disgwyliadau yn adlewyrchu maint ac adnoddau'r sefydliad.

Caiff y broses o ddatblygu dyletswyddau cydraddoldeb penodol ei llywio gan bedair egwyddor. Mae'r rhain yn unol â strategaeth *Creu'r Cysylltiadau* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yr egwyddorion yw:

Defnyddio tystiolaeth: tystiolaeth gadarn dda i ddeall y cymunedau a wasanaethir a llunio camau gweithredu ar gyfer y dyfodol;

Ymgynghori a chynnwys: fel bod anghenion y dinesydd yn gallu helpu i lunio'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n addas at y diben, yn diwallu anghenion ac yn sicrhau canlyniad cadarnhaol;

Tryloywder: sef sut y pennwyd amcanion a sut y cyflwynir adroddiadau cynnydd yn erbyn amcanion a meysydd cydraddoldeb o flaenoriaeth;

Rhoi Arweiniad: Arweiniad cadarn sy'n creu diwylliant a hinsawdd gadarnhaol o fewn y sector cyhoeddus i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol i helpu i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i gefnogi awdurdodau cyhoeddus i ddarparu gwell gwasanaethau i ddinasyddion Cymru.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer dyletswyddau cydraddoldeb penodol

Wrth ystyried sut y llunnir unrhyw ddyletswyddau cydraddoldeb penodol y dylid eu datblygu yng Nghymru a'u cwmpas, rydym wedi ystyried rhai meysydd gweithgaredd allweddol lle ceir potensial i archwilio sut y gallem gydweithio ar ein hagenda cydraddoldeb i Gymru:

- Pennu amcanion cydraddoldeb
- Ymgynghori a Chynnwys
- Asesu effaith
- Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn yr amcanion

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

- Bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gwahanu swyddi
- Caffael Sector Cyhoeddus
- Sut y mae arolygiad yn cefnogi'r agenda cydraddoldeb;
- Cyflwyno adroddiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Croesawn ystyriaeth a thrafodaeth o ran sut y gallem ddatblygu ar sail gwaith da a gyflawnwyd eisoes neu ddatblygu cynigion. Croesawn eich syniadau ynglŷn ag unrhyw feysydd eraill y dylem fod yn eu hystyried ar gyfer dyletswyddau penodol.

Sut y gallwn ddefnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan ddyletswyddau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ar gyfer ein dinasyddion?

Pennu amcanion cydraddoldeb

Mae hyrwyddo cydraddoldeb yn dibynnu ar sail dystiolaeth effeithiol, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn datblygu hon drwy ymchwil a gwerthuso parhaus. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau a phrofiad cadarnhaol i'r dinesydd yn hollbwysig.

Bydd pob awdurdod cyhoeddus yn parhau i roi ystyriaeth briodol i'r holl feysydd cydraddoldeb fel rhan o'r ddyletswydd gyffredinol; ond ni fyddai hynny'n atal canolbwyntio ar faes penodol ar adeg benodol lle mae tystiolaeth yn dangos bod angen cymryd camau penodol. Yn wir, mae defnyddio tystiolaeth i alluogi blaenoriaethu yn hanfodol er mwyn sicrhau y cyflawnir amcanion.

Dylai awdurdodau cyhoeddus hefyd gael yr hyblygrwydd i bennu amcanion cydraddoldeb yng nghyd-destun blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Dylai'r dull a fabwysiedir i ddatblygu'r amcanion fod yn gymesur i faint y sefydliad. Er enghraifft, efallai y bydd ysgol gynradd fach yn dymuno canolbwyntio ar faes penodol lle y nodwyd angen.

Efallai y byddai'n well gan sefydliadau barhau i gyflwyno eu hamcanion cydraddoldeb mewn cynllun cydraddoldeb cyhoeddedig. Mae nifer o opsiynau eraill ar gael sy'n haeddu ystyriaeth bellach, megis:

- Datblygu nodau ansawdd cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ceisio cydnabod arfer nodedig a chyflawni amcanion;
- Datganiadau bwriad cydraddoldeb sy'n ceisio cydnabod mater gydag addewid i ymateb i'r mater hwnnw mewn ffordd benodol erbyn amser penodol;
- Maniffestos cydraddoldeb - nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer y sefydliad o ran amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Beth yw'r ffordd orau y gall awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi amcanion cydraddoldeb, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth berthnasol ac sy'n nodi'r camau y maent yn bwriadu eu cyflawni?

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

Ymgynghori a Chynnwys

Mae ymgynghori a chynnwys effeithiol yn rhan allweddol o sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau priodol i ddinasyddion. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau rhesymol i ymgynghori a chynrychiolwyr cyflogaeth, defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau perthnasol eraill, a'u cynnwys. Dylai hefyd fod ffocws penodol ar ymgysylltu â grwpiau ac unigolion sy'n cynrychioli'r nodwedd a ddiogelir, a dylai awdurdodau cyhoeddus hefyd gydnabod bod pobl yn unigolion sy'n wynebu anfanteision lluosog, ac sydd ag anghenion gwahanol.

Sut y gallai awdurdodau cyhoeddus gynnwys pobl yn y broses o bennu amcanion cydraddoldeb, wrth gynllunio polisiâu a darparu gwasanaethau?

Asesu effaith

Gall defnyddio Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Pan gaiff ei ddefnyddio'n briodol, mae'n helpu llunwyr polisiâu a darparwyr gwasanaethau i gadw mewn cof pam mae angen y polisi neu'r gwasanaeth, pwy sydd ei angen, sut y bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb, a sut y caiff ei ddarparu i'r defnyddiwr gwasanaeth. Maent yn ddefnyddiol yn y broses o gasglu data cydraddoldeb i bennu amcanion ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb drwy lunio polisiâu a darparu gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu model Lluio Polisiâu mewn Modd Cynhwysol. Gosodir y pwyslais ar helpu llunwyr polisi i agor deialog â grwpiau cydraddoldeb mor gynnar â phosibl yn ystod y cam datblygu polisi.

Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym am glywed gennych ynghylch a ddylem gadw'r gofyniad ar gyfer asesiad effaith i gynorthwyo'r broses o lunio polisiâu a darparu gwasanaethau wrth gyflawni cydraddoldeb. Rydym hefyd am glywed eich barn o ran sut y gallwn sicrhau y gall asesiadau o'r fath fod yn gymesur a chanolbwyntio ar ganlyniadau.

Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb

Gall cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn amcanion helpu pobl y tu mewn, a'r tu allan i sefydliad fod yn hyderus bod yr awdurdod yn darparu'r hyn y maent wedi dweud eu bod yn bwriadu ei gyflawni. Hyd yn oed pan fydd amcanion yn rhai hirdymor, gall cyflwyno adroddiadau effeithiol roi hyder bod y duedd yn arwain tuag at welliant.

Gall hefyd fod yn briodol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y cyfraddau cyflogaeth neu gyfraddau defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer **pob** maes (er efallai bod rhai pobl yn gwneud hynny'n wirfoddol). Ond ceir anawsterau o ran hyn:

- a) oherwydd anawsterau ymarferol o ran casglu'r data ar gyfer rhai o'r meysydd mwy newydd, megis cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu greddo o setiau data cenedlaethol neu setiau data cyflogwr,

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

b) o ran rhai meysydd, efallai na fydd cyfraddau cyflogaeth yn ddangosyddion defnyddiol iawn o gynnydd - er enghraifft, mae nifer y cyflogeion trawsrywiol yn llai defnyddiol o ran deall cynnydd o ran cydraddoldeb trawsrywedd na ffactorau eraill, megis cynlluniau penodol i ddiwallu anghenion gwahanol.

Yn ogystal gall fod yn anghymesur i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus bach gydymffurfio â gofynion o ran cyflwyno adroddiadau, a gall fod yn fwy priodol i unedau bach gael eu cynnwys o fewn adroddiadau cyrff sector cyhoeddus mwy o faint - megis ysgolion yn cyflwyno adroddiadau drwy eu hawdurdodau lleol.

Beth y dylai'r gofynion adrodd hyn eu cynnwys? (Er enghraifft, ffigyrau o ran y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, cyfraddau cyflogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, cyfraddau cyflogaeth Pobl Anabl?)

Sut rydym yn datblygu ar sail hyn, gan gynnwys meysydd cydraddoldeb eraill o bosibl?

Os caiff ei gyflwyno, a ddylid gosod y gofyniad adrodd hwn ar awdurdodau o faint penodol - efallai rhai sydd â 150 o gyflogeion?

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gwahanu swyddi

Er gwaethaf y duedd o leihad yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, erys y sefyllfa yng Nghymru yn annerbyniol. Dengys ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod y ffactorau cyfrannol yn ymestyn y tu hwnt i fynd i'r afael â systemau cyflog.

Ceir tystiolaeth fod arferion cyflogaeth yn parhau i gyfrannu at y bwlch cyflog hwn rhwng y rhywiau, a bod hyn yn cael effaith andwyol ar dlodi teuluoedd a phlant.

Dengys ymchwil mai ffactorau cymhleth sy'n achosi cyflogau anghyfartal. Y prif ffactorau sy'n cyfrannu at y 'bwlch cyflog rhwng y rhywiau' yw gwahanu rhywedd yn y farchnad lafur, a rhwystrau o ran gofal plant ac oriau gweithio hyblyg.¹ O adolygiad o ddata cyflogaeth mewn awdurdodau lleol yng Nghymru (Parker ac eraill 2009) mae'n amlwg fod y system contractau yn ffactor pwysig h.y. mae gan fenywod nifer anghymesur o gontractau rhan-amser ac achlysurol.

Gall gwahaniaethu o ran cyflog, er enghraifft, wrth gymharu 'tebyg â'i debyg' neu swyddi o werth cyfartal, chwarae llai o rôl. Felly, efallai nad yw Adolygiadau Cyflog Cyfartal, sy'n defnyddio llawer o adnoddau ac sy'n ddrud, yn gwneud cyfraniad mor sylweddol i leihau'r bwlch cyflog cyffredinol rhwng y rhywiau o fewn awdurdod cyhoeddus ag archwiliadau cyflog cyfartal, a fyddai'n cynnwys dadansoddiad ehangach o batrymau cyflogaeth yn ôl rhywedd a rhwystrau yn y gweithle.

Yr opsiynau a nodwyd fel rhai a allai leihau'r bwlch cyflogau yw:

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

- dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddadansoddi gwahaniad yn ôl galwedigaeth, cyflog, gradd, a math o gontract (er enghraifft, byddai angen i gyflogwyr gyfiawnhau cyflogi nifer anghymesur o fenywod ar gontractau rhan amser, contractau achlysurol â nifer fach o oriau neu gontractau cyfnod penodol); neu
- dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr weithredu i fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol.

Croesawn eich barn o ran yr hyn y credwch yw'r ffactorau pwysicaf y dylid eu hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau?

Sut y gellid defnyddio'r ffactorau hyn i lunio dyletswydd benodol?

Caffael Sector Cyhoeddus

Gall caffael sector cyhoeddus fod yn ffactor allweddol sy'n ysgogi newid wrth hyrwyddo cyfle cyfartal i ddinasyddion Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos ei arweiniad yn y maes hwn drwy'r dull blaengar a ddatblygir ar gyfer caffael cyhoeddus gan Gwerth Cymru.

Mae caffael cyhoeddus yng Nghymru yn cyfrif am £5 biliwn o wariant cyhoeddus bob blwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau cyhoeddus weithredu newid ac annog hyrwyddo cydraddoldeb o ran darparu'r hyn sy'n wasanaethau cyhoeddus i'r un graddau â'r rheini a ddarperir gan gyflogwyr y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid gwerthfawrogi cymhlethdod datblygu dyletswydd gydraddoldeb benodol effeithiol i'r sector cyhoeddus a fydd yn sicrhau canlyniadau gwirioneddol.

A ddylai awdurdodau cyhoeddus fod yn destun dyletswydd cydraddoldeb benodol sy'n ceisio atgyfnerthu'r dull blaengar a hyrwyddir gan Gwerth Cymru?

Sut y mae Arolygiadau yn ategu'r agenda cydraddoldeb

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw'r corff rheoleiddio a gorfodi ar gyfer cydraddoldeb yng Nghymru. Mae nifer o gyrff arolygu a rheoleiddio eraill yn gweithredu yng Nghymru, megis Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r rhain yn awdurdodau cyhoeddus yn eu rhinwedd eu hunain, ac fel y cyfryw, gellir gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar y cyrff hyn gan eu bod yn gyflogwyr sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yn bwysicach na hynny mae'r swyddogaethau a gyflawnir gan y cyrff hyn ar ran Gweinidogion Cymru o ran arolygu a rheoleiddio yn y sector y maent yn gweithredu ynddo: gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a llywodraeth leol.

Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o rannu gwybodaeth. Un ateb o bosibl yw cytundeb rhwng yr arolygiaethau, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn ar weithdrefnau rhannu gwybodaeth.

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

Dylai unrhyw gytundeb o'r fath ganolbwyntio ar wybodaeth a data cydraddoldeb sy'n dangos profiadau dinasyddion a chyflawni canlyniadau, yn hytrach nag asesu gweithdrefnau a phrosesau.

Pa rolau y gall arolygiaethau eu chwarae o ran sicrhau canlyniadau cydraddoldeb i ddinasyddion?

Cyflwyno Adroddiadau gan Weinidogion Cymru

Bu'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar gydraddoldeb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y deng mlynedd ddiwethaf. Drwy bob amser geisio gwella cynnwys yr adroddiadau, maent wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr a chadarnhaol i'r agenda cydraddoldeb sy'n datblygu yng Nghymru. Ers ei sefydlu, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i fod yn agored a thryloyw.

Mae cyflwyno adroddiadau cydraddoldeb gan Weinidogion Cymru yn rhan annatod o'r dull hwn o weithredu, ac yn estyniad naturiol o'r egwyddorion hyn. Byddai dyletswydd cydraddoldeb benodol o ran sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn parhau i gyflwyno adroddiadau cydraddoldeb yn sicrhau bod cydraddoldeb yn parhau i fod wrth wraidd gweithgareddau'r llywodraeth yng Nghymru, ond rhaid i ni sicrhau bod y broses o gyflwyno adroddiadau yn ystyrlon ac wedi'i hamseru mewn modd cyd-gysylltiedig. Rydym am ystyried opsiynau o ran sut y gellir gwella trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gydraddoldeb gan Weinidogion Cymru.

Sut y gallwn sicrhau bod adroddiadau cydraddoldeb gan Weinidogion yn ystyrlon ac yn gyfle gwirioneddol am drafodaeth ar gynnydd cydraddoldeb yng Nghymru?

Y camau nesaf

Yn y papur hwn, rydym wedi ceisio amlinellu rhai o'r syniadau o ran y dyletswyddau cydraddoldeb penodol y gallai fod gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gosod ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr ymarfer gwrando hwn yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu'r dyletswyddau hyn, a chroesewir sylwadau ac awgrymiadau.

Drwy'r ddogfen hon i gyd ceir cyfres o gwestiynau a fydd yn ein helpu i lunio'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol y gellir eu gosod gan Weinidogion Cymru. Bwriedir iddynt ysgogi'r drafodaeth, ac ni ddylent gyfyngu ar syniadau neu safbwyntiau o ran blaenoriaethau ehangach neu wahanol. Gellir anfon ymatebion i'r cwestiynau hyn i:

Ymarfer Gwrando Cymru
Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol yng Nghymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
e.-bost: edid@wales.gsi.gov.uk

Ffôn 029 20 825761

Bydd angen dymchwelyd ymatebion erbyn dydd Llun 16^{eg} Tachwedd fan bellaf.

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

Yn ystod yr ymarfer gwranddo, byddwn yn defnyddio rhwydweithiau amrywiol sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol i gasglu safbwyntiau ac awgrymiadau. Er enghraifft, byddwn yn cydweithio â'n partneriaid yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a grwpiau cydraddoldeb yn y Trydydd Sector.

Trefnir cyfres o fforymau arbennig yn ystod y cyfnod hwn a byddant yn dwyn ynghyd bobl sydd â phrofiad o faes cydraddoldeb. Daw'r cynrychiolwyr o'r sectorau academaidd, gwirfoddol a statudol. Diben y grwpiau hyn fydd ystyried yr opsiynau yn llawn ar gyfer dyletswyddau penodol o dan yr holl themâu a amlinellwyd yn y papur trafod hwn, ac i asesu'r potensial ar gyfer dyletswyddau yn y meysydd hyn i sicrhau canlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol.

Croesewir safbwyntiau ar flaenoriaethau ar gyfer dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Ar ôl iddynt gael eu casglu a'u hystyried, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Dilyniir hyn gan ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion manwl ar gyfer dyletswyddau penodol. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ar ddechrau 2010.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben. Gallai eich ymateb, ynghyd â phob ymateb arall i'r ymgynghoriad, gael ei ddatgelu ar gais. Ni all Llywodraeth Cynulliad Cymru ond wrthod datgelu gwybodaeth o dan amgylchiadau eithriadol. **Cyn** i chi gyflwyno eich ymateb, darllenwch y paragraffau isod ynghylch cyfrinachedd ymgynghoriadau a byddant yn rhoi cyfarwyddyd i chi ynghylch y sefyllfa gyfreithiol o ran unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd weld unrhyw wybodaeth y mae awdurdod cyhoeddus, Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr achos hwn, yn meddu arni. Mae'r hawl hwn i weld gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriad. Ni all Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yn awtomatig wybodaeth a ddarperir iddi mewn ymateb i ymgynghoriad fel gwybodaeth gyfrinachol.

Serch hynny, mae cyfrifoldeb arni i benderfynu a ddylai unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys manylion personol amdanoch, gael ei chyhoeddi neu ei thrin yn gyfrinachol. Gan amlaf caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) ei awdur eu cyhoeddi ynghyd â'r ymateb, gan fod hyn yn rhoi hygrededd i'r ymarfer ymgynghori.

Os byddai'n well gennych i'ch ymateb beidio â chael ei gyhoeddi, neu gael ei gyhoeddi ond heb ei briodoli, cynhwyswch esboniad yn eich ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gallai fod amgylchiadau pan fydd yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno gwybodaeth i drydydd partïon ar gais, er mwyn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau statudol. Mae hyn yn cynnwys ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 1992. I gael rhagor o wybodaeth am God Ymarfer y Cynulliad wrth ymdrin â cheisiadau i gael gafael ar wybodaeth y mae'n meddu arni ewch i'n gwefan: www.information.wales.gov.uk

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

ATODIAD A

Y DYLETSSWYDDAU PENODOL PRESENNOL

Cynlluniau Cydraddoldeb

Mae'r dyletswyddau penodol presennol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun cydraddoldeb blynyddol mewn perthynas â hil ac anabledd. Diben y cynlluniau cydraddoldeb hyn yw nodi sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn bwriadu cyflawni eu dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Fel rhan o'u priod gynlluniau, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus nodi eu trefniadau ar gyfer asesu effaith neu effaith debygol polisïau ac arferion ar y grŵp a ddiogelir ac, o dan y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol, trefnu i fonitro'r grwpiau a ddiogelir neu gasglu gwybodaeth amdanynt. Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb diwygiedig ar ôl 3 blynedd ac adolygu cynlluniau bob 3 blynedd wedi hynny.

Ymgynghori a monitro

Mae'r dyletswyddau hil penodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus nodi swyddogaethau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol, nodi trefniadau ar gyfer asesu, ymgynghori a monitro o ran effaith polisïau arfaethedig ar gydraddoldeb, cyhoeddi canlyniadau ymgynghoriadau a sicrhau mynediad cyhoeddus i wybodaeth a gwasanaethau. Yn ogystal ceir dyletswydd, sy'n unigryw i'r dyletswyddau hil penodol, i gynnwys trefniadau yn y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer hyfforddi staff mewn perthynas â'r ddyletswydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad i ymgynghori na chynnwys pobl berthnasol wrth lunio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. Mae'n ofynnol i gyflogwyr sy'n fwy na maint penodol i fonitro staff drwy gyfeirio at grwpiau hil. Rhaid i gyrrff addysgol penodol gyflawni dyletswyddau hil penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'u polisi ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb hil, yn cynnwys trefniadau ar gyfer asesu effaith a monitro drwy gyfeirio at grwpiau hil gwahanol.

Mae'r dyletswyddau penodol o ran anabledd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod a restrir, wrth ddatblygu ei Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl, gynnwys pobl anabl yr ymddengys iddo fod ganddynt ddi-ddordeb yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Aiff hyn y tu hwnt i'r ddyletswydd i ymgynghori wrth baratoi cynllun. Rhaid i Gynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl nodi sut y cafodd pobl anabl eu cynnwys yn y broses o'u datblygu, a nodi dulliau'r awdurdod cyhoeddus ar gyfer asesu effaith polisïau ac arferion ar bobl anabl, y camau y bwriada eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus, a'i drefniadau ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth i'w helpu i gyflawni'r dyletswyddau. Rhaid i awdurdod a restrir weithredu'r camau hyn o fewn tair blynedd oni fydd yn afresymol neu'n anymarferol gwneud hynny.

Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd

Mae'r ddyletswydd i sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl hefyd yn cynnwys dyletswydd benodol ar Ysgrifenyddion Gwladol adrannau'r llywodraeth a restrir i gyhoeddi adroddiad mewn perthynas â phob un o'i swyddogaethau cyhoeddus o ran cynnydd tuag at gyfle

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

cyfartal i bobl anabl a chynigion ar gyfer sicrhau cynnydd pellach. Mae'r ddyletswydd hon yn unigryw i'r ddyletswydd i sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl.

Mae'r tabl isod yn crynhoi sut y mae'r dyletswyddau presennol yn cymharu:

	Cyhoeddi Cynllun	Paratoi Cynllun	Cynnwys Cynllun	Dyletswyddau eraill
Hil	Cynllun Cydraddoldeb Hiliol; diwygio ar ôl 3 blynedd; adolygu bob 3 blynedd	Dim dyletswydd i ymgynghori na chynnwys eraill	Nodi swyddogaethau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd; trefniadau ar gyfer asesiadau effaith, monitro, cyhoeddi canlyniadau, sicrhau mynediad cyhoeddus, hyfforddiant staff	Dyletswydd ar gyflogaeth i fonitro staff ac ymgeiswyr drwy gyfeirio at grwpiau hil, dyletswydd ar gyfrif addysgol i gael datganiad polisi cydraddoldeb ac i fonitro staff ac ymgeiswyr drwy gyfeirio at grwpiau hil.
Anabledd	Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl; diwygio ar ôl 3 blynedd; adolygu bob 3 blynedd	Dyletswydd i gynnwys pobl anabl yn y broses o'i ddatblygu	Datganiadau ar gynnwys pobl anabl, dulliau asesu effaith, camau ar gyfer cyflawni dyletswyddau, trefniadau ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth	O fewn 3 blynedd, cymryd y camau a nodwyd ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd, a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth, oni fydd yn afresymol neu'n anymarferol o dan yr holl amgylchiadau; cyflwyno adroddiad blynyddol; dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno adroddiadau ar gynnydd
Rhywedd - nid yw'n berthnasol i Gymru	Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau; diwygio ar ôl 3 blynedd; adolygu bob 3 blynedd	Dyletswydd i ymgynghori â chyflogaeth, defnyddwyr gwasanaethau ac eraill i roi ystyriaeth i wybodaeth berthnasol	Yn nodi ein hamcanion cyffredinol ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r bwch cyflog rhwng y rhywiau, nodi'r camau gweithredu a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd ar gyfer	Rhoi'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun ar waith o fewn 3 blynedd, oni fydd yn afresymol neu'n anymarferol o dan yr holl amgylchiadau; cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd tuag at gyflawni'r amcanion

Y Mesur Cydraddoldeb
Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

			casglu a defnyddio'r wybodaeth berthnasol, ar gyfer cynnal asesiadau effaith, ymgynghori ac er mwyn cyflawni'r amcanion	
--	--	--	---	--

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

ATODIAD B

CYDRADDOLDEB, Y MESUR CYDRADDOLDEB A CHAFFAEL NWDYDDAU A GWASANAETHAU GAN AWDURDODAU CYHOEDDUS YNG NGHYMURU

Nododd ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar "Framework for a Fairer Future – the Equality Bill" (Mehefin 2007) y canlynol:

"£160 billion is spent by the public sector on private sector contracts every year. The Equality Duty will require public bodies to give due regard to the need to tackle discrimination and promote equality through their purchasing functions."

ac aeth yn ei flaen i nodi:

"We will work with the Office for Government Commerce and others to develop ways of improving how public bodies use their purchasing power to support the delivery of equality outcomes. Government will....consult with stakeholders in developing these options".

Camau gweithredu Llywodraeth y DU ym maes cydraddoldeb a chaffael

2. Ym mis Mehefin 2008, nododd y Llywodraeth sut y gellir cyflawni canlyniadau cymdeithasol drwy bwrcasu yn y sector cyhoeddus². Ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddodd OGC ganllaw ar gyfer caffaelwyr cyhoeddus, ar hyrwyddo cydraddoldeb drwy gaffael yn benodol³.

3. Cynigiodd llyfryn yr OGC enghreifftiau adeiladol o weithgareddau arfer da i helpu i wella canlyniadau cydraddoldeb drwy gaffael. Er enghraifft, drwy ledaenu arfer gorau yn well a datblygu offerynnau cymorth megis Pecyn Cymorth Cydraddoldeb drwy Gaffael.]

4. Yn gyffredinol, mae opsiynau yn cynnwys: cysylltu canlyniadau cydraddoldeb yn uniongyrchol i'r camau caffael, er enghraifft ar gam yr Holiadur Cyn-Gymhwyso (PQQ) neu o dan amodau contract, neu:

- (i) i'w wneud o hyd braich, er enghraifft drwy'r pecyn cymorth a/neu;
- (ii) datblygu Nod Barcud neu Safon Cydraddoldeb.

Mentrau Gwerth Cymru

5. Mae'r mentrau sydd ar waith ar hyn o bryd o fewn Gwerth Cymru sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal drwy'r broses gaffael yn cynnwys:

- **Tasglu Caffael Busnes:** A Gadeirir gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, hyrwyddo cyfle cyfartal i gyflenwyr, yn enwedig

² 'Buy and make a Difference – How to address Social Issues in Public Procurement'.

³ 'Make Equality Count'.

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, i gystadlu am gyfleoedd caffael sector cyhoeddus.

- **Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig:** Mae'r Siarter Agor Drysiau, a lansiwyd yn 2006, yn nodi egwyddorion ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector Busnesau Bach a Chanolig eu Maint sydd â'r nod o hwyluso ymgysylltu. Adnewyddwyd y Siarter ym mis Mai 2008 i gynnwys cyfeiriad penodol at Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint yn eu cyd-destun ehangaf - at ddibenion y Siarter, ystyrir bod busnesau bach a chanolig yn 'grŵp amrywiol o fusnesau, sy'n amrywio o fasnachwyr unigol i gwmnïau sylweddol, sefydledig - gan gynnwys busnesau newydd, busnesau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, mudiadau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a busnesau a gefnogir'. Mae'r Siarter ar ei newydd wedd yn cynnwys cymeradwyaeth gan Brif Weithredwr CGGC. Mae pob sefydliad mawr yn y sector cyhoeddus ledled Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddorion.
- **Cod Ymarfer Prynu Cymru Gyfan:** Ymrwymiad 'Cymru'n Un'. Y Siarter yw conglaen y cod, ac fe'i hategir gan y Canllaw Cynllunio Caffael, sef canllaw cam wrth gam drwy'r broses gaffael, cyngor ar arfer gorau ac offerynnau megis dogfennaeth gaffael safonol.
- **Mae'r porth caffael cenedlaethol GwerthwchiGymru** wedi hysbysebu cyfleoedd caffael sector cyhoeddus gwerth dros £6 biliwn ers ei lansio yn 2004. Gall cyflenwyr gofrestru am ddim - mae dros 31,000 wedi gwneud hynny hyd yma - mae'r porth yn anfon hysbysiadau e-bost awtomatig atynt am gyfleoedd caffael sy'n cyd-fynd â phroffil y cyflenwr.
- **Annog arferion caffael sy'n ystyriol o Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint:** Mae'r Siarter yn rhwymo awdurdodau sy'n contractio i 'becynnu contractau mawr yn elfennau ar wahân neu'n defnyddio lotiau rhanbarthol os bydd hynny'n briodol, er mwyn sicrhau nad yw busnesau bach a chanolig yn cael eu rhwystro rhag tendro', lleihau ar y gwaith gweinyddol sydd angen i dendro, a symud tuag at ymagwedd gyson i Gymru gyfan o ran dogfennaeth cyn-gymhwyso a chontractau safonol.
- **Cynllun Gweithredu ar gyfer ymgysylltu â Sefydliadau Trydydd Sector a Busnesau a Gefnogir:** Mae'r Rheoliadau Caffael Ewropeaidd yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau contractio cyhoeddus neilltuo contractau ar gyfer Busnesau a Gefnogir. Dyfarnodd Gwerth Cymru y fframwaith neilltuedig cyntaf ar gyfer darparu dodrefn ac arwyddion ailgylchu TG yn y DU.
- **Yr Offeryn Asesu Risg Cynaliadwy:** Cymhwysir i holl gontractau Llywodraeth Cynulliad Cymru gwerth dros £25k. Mae'r materion a gynhwysir yn yr offeryn Asesu Risg Cynaliadwy yn cynnwys yr angen i adolygu
- **Mae'r Rhaglen Hyfforddi Caffael Cynaliadwy "Gwneud iddo Ddigwydd"** yn cynnig canllawiau ac offerynnau ymarferol i'r sawl sy'n ymwneud â chaffael fel eu bod yn gallu sicrhau bod cynaliadwyedd yn fater allweddol yn y broses gaffael. Mae Gwerth Cymru yn y broses o baratoi cwrs Cydraddoldeb ac

Y Mesur Cydraddoldeb

Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

Amrywiaeth ym Maes Caffael, ar y cyd â'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi, i'w ddefnyddio yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Caffael a gofynion yr UE

6. Mae gofynion yr UE yn fater y cyfeiriwyd ato gan rai fel rhywbeth sy'n atal y posibilrwydd o osod dyletswyddau penodol unrhyw le ym Mhrydain a allai ymwneud â chaffael. Nid yw "Make Equality Count" yn cadarnhau hynny. Mae'n pwysleisio bod y cyfle i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb i'w gael ar y camau o lunio'r strategaeth, cynnwys defnyddwyr, cynllunio a manylebau yn bennaf, heb fawr ddim wedi hynny heblaw rheoli contract i sicrhau y cydymffurfir ag amodau ac ati.

7. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at ganllawiau'r hen Gomisiwn Hawliau Anabledd yn y maes hwn ("Procurement and the Disability Equality Duty" a atodir isod), a gyhoeddwyd ddiwedd 2006 (ac sydd i'w gweld o hyd ar wefan newydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol).

Gellir gweld y canllawiau hyn yn www.equalityandhumanrights.com

8. Yn benodol dywed tudalen 13 "public authorities should consider at planning stage whether there is scope for incorporating positive action obligations in any contract where the works, goods or services they propose to buy are highly relevant to the authority's disability equality duty." Ar dudalen 17, eir i'r afael yn benodol â'r farn fod Rheolau Caffael Cyhoeddus yr UE yn rhwystro hyrwyddo cydraddoldeb, gan gloi gyda'r frawddeg "It is quite clear that the requirement to pursue disability equality sits comfortably with the rules on public procurement."